Annwyl riant/gofalwr,

Mae ysgol eich plentyn wedi dewis bod yn rhan o fenter newydd gyffrous i annog mwy o blant a'u teuluoedd i deithio'n llesol i'r ysgol. Caiff menter **Sêr Symud** ei chyflwyno gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd, i helpu cymaint o blant â phosibl i brofi manteision cerdded/troelli, beicio, sgwtera neu sglefrio i'r ysgol.

Mae'r her sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion yn galluogi plant i ddefnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Bob tro maen nhw'n cofnodi eu taith yn **Sêr Symud** byddan nhw'n ennill pwyntiau unigol ac yn cyfrannu at gyfanswm sgôr y dosbarth. Po fwyaf llesol a/neu gynaliadwy yw taith, y mwyaf o bwyntiau sydd ar gael, gyda'r pwyntiau uchaf yn cael eu dyfarnu am gerdded/troelli, beicio, sgwtera neu sglefrio.

Bydd eich plentyn yn cael ei wobrwyo am gymryd rhan bob mis gyda sticer **Sêr Symud** arbennig. Bydd ei ddosbarth yn cystadlu i gael y mwyaf o bwyntiau ar ddiwedd y mis a'r cyfle i gadw masgot Strider bach. Mae mor syml â hynny!

Mae eich ysgol yn treialu prototeip cynnar o'r fenter newydd hon. Bydd adborth gan athrawon, disgyblion a rhieni yn helpu i lunio'r cynnyrch terfynol, a ddylai fod ar gael yn eang o fis Medi 2027.

**Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?**

- Mae'r plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Maen nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

**Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?**

Os byddwch chi'n gyrru, parciwch a cherddwch i gofnodi dau bwynt dosbarth. Parciwch **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** o'r ysgol a cherddwch neu droellwch gweddill y daith. Os byddwch chi'n gyrru'ch plentyn i'r ysgol, gall barhau i gyfrannu un pwynt at gyfanswm ei ddosbarth trwy gofnodi ei daith.

Mae defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn ennill pwyntiau, felly gall pawb ymuno â her Sêr Symud!

Mae porth rhieni pwrpasol ar gael fel rhan o Sêr Symud: y cyswllt/URL yma. Cymerwch olwg ar y cyswllt i gael gwybod mwy am Living Streets a dywedwch wrthym am eich taith i'r ysgol.

Rydym yn treialu'r newidiadau hyn i gyflwyno teithio'n llesol i fwy o blant. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am **Sêr Symud**, cysylltwch â: movemakers@livingstreets.org.uk.